



# ARIANNU FFYNIANT: CREU SYSTEM DRETHI NEWYDD YNG NGHYMRU

Dr Helen Rogers a Sara Closs-Davies






Mawrth 2019

@FSB_Wales

**fsb.wales**

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

fsb Experts in Business Arbenigwyr mewn Busnes

# MYNEGAI

Rhagair ........ 3

Cyflwyniad ........ 4

Cefndir ........ 5

Cefndir – Amserlen Datganoli Trethi ........ 6

Trethi datganoledig ac Awdurdod Cyllid Cymru ........ 7

Canfyddiadau

- Cyd-destun y canfyddiadau ........ 8
- Ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru ........ 8
- Safbwyntiau am effaith bosibl trethi datganoledig Cymru ........ 11
- Ymwybyddiaeth am Dreth Trafodiadau Tir (TTT) newydd ........ 12
- Safbwyntiau am effaith bosibl y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) ........ 14

Canfyddiadau Allweddol ........ 16

Argymhellion ........ 17

Methodoleg ........ 18

Llyfryddiaeth ........ 19

Atodiadau ........ 21

- Atodiad 1: Cyfraddau a bandiau'r TTT ........ 21
- Atodiad 2: Cyfraddau a bandiau Treth Incwm a'r refeniw a ragwelir o'r trethi datganoledig ...... 22
- Atodiad 3: Rhagolygon refeniw o'r trethi datganoledig ........ 23

Cefnogir y gwaith hwn gan Gyfrif Cyflymu Effaith yr ESRC Prifysgol Bangor.

This work is supported by the Bangor University ESRC Impact Acceleration Account.

# RHAGAIR

Ym mis Ebrill 2019, caiff treth incwm ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ffurfio rhan o'r broses o ddatganoli trethi a fydd yn gweld y trethi Cymreig cyntaf i gael eu codi a'u casglu ers amser Llywelyn Fawr yn y 13eg Ganrif. Ynghyd â threthi busnes allweddol fel ardrethi annomestig, treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi, bydd y ffordd mae Llywodraeth Cymru'n dewis defnyddio'r pwerau newydd yma'n cael effaith sylweddol ar BBaCh ledled Cymru.

Nid cyfraddau a bandiau'r trethi hyn yw'r unig ffactorau pwysig yn hyn o beth. Bydd sut y cânt eu gweinyddu'n bwysig hefyd. Canfu gwaith ymchwil blaenorol y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) ar gyfer yr adroddiad *Taxing Times* fod y busnes cyfartalog yn y DU yn colli tair wythnos y flwyddyn i weinyddu trethi, ac yn gwario tua £5,000 y flwyddyn ar weinyddu trethi. Mae 55 y cant o fusnesau'n teimlo eu bod yn anwybodus ynghylch y mathau o ryddhad trethi a allai fod ar gael iddynt ac y gallai eu busnesau elwa arnynt.

I ddelio gyda hyn, mae llawer ohonynt yn troi at gynghorwyr proffesiynol i gael eu trethi'n gywir. Gwelsom fod 77 y cant o gwmnïau'n gwneud hyn, gyda chyfrifwyr yn arbennig o bwysig i fusnesau, ynghyd â chynghorwyr cyfreithiol hefyd mewn perthynas â threthi mwy technegol. Yn y cyd-destun hwn, bydd y ffordd mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati i weinyddu ei threthi datganoledig, a'r ffordd y bydd yn gweithio gyda phobl broffesiynol ym maes trethi, yn hanfodol i leihau'r effaith o ran y baich gweinyddol.

Gyda chynigion yn dod i'r fei am bethau amlgar fel trethi ar dwristiaid a threthi tir segur, roeddem ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod FSB Cymru'n amlinellu anghenion busnesau bach a'r problemau sy'n eu hwynebu wrth ddelio â threthi datganoledig. Mae'r gwaith ymchwil yma'n cynnig trosolwg yn hynny o beth, ac mae hi'n amlwg bod profiadau cynnar pobl wedi bod yn gymysg. Ar y naill law, nid yw llawer ohonynt yn ymwybodol bod trethi wedi cael eu datganoli. Mae hynny'n destun pryder, am fod hyn yn fater a allai effeithio ar bron pob busnes ar ôl i dreth incwm gael ei datganoli.

Ar y llaw arall, mae'r bobl hynny sydd wedi cael profiad o drethi datganoledig newydd Cymru wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, o ran yr hyn y maent wedi ei ddweud am Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru ac ACC i barhau â'r cychwyn cadarnhaol yma, a chreu system gweinyddu trethi sy'n gweithio i'r 250,000 o ficrofusnesau, busnesau bach a chanolig sydd yna yng Nghymru.

Ben Francis
Cadeirydd, Uned Polisi FSB Cymru

# CYFLWYNIAD

*"Mae'r system drethi'n chwarae rhan greiddiol ym mhob economi fodern… Mae'r dulliau o godi'r symiau aruthrol yma o arian yn eithriadol o bwysig o ran effeithlonrwydd economaidd ac o ran tegwch" (Mirrlees, 2011:470).*

Daeth dwy dreth ddatganoledig i rym ym mis Ebrill 2018, sef Treth Trafodiadau Tir (TTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (TGT). Mae newid o ran polisi a gweinyddu trethi'n peri heriau i drethdalwyr ac ymarferwyr, ac mae'n bosibl y gallai ddylanwadu ar ymddygiad trethdalwyr hefyd. Felly mae hi'n bwysig deall sut y mae'r trethi newydd yn cael eu cyfathrebu a'u gweithredu, a sut y maent yn cael eu gweinyddu'n ymarferol.

Yn ystod blwyddyn weithredol gyntaf y trethi newydd, ychydig o brofiad ymarferol sydd yna i fanteisio arno; ond dros amser, bydd dulliau gweithredu, gweithredoedd a datganiadau cyhoeddus ACC yn gosod cynseiliau ac yn bwydo'r disgwyliadau mewn perthynas â gweinyddu a gorfodi trethi yn y dyfodol (Prifysgol Bangor, 2017). Mae hi'n bwysig felly deall sut y mae trethi'n cael eu cyfathrebu a'u gweinyddu yn ystod eu blwyddyn gyntaf, am fod hynny'n rhoi syniad cynnar o beth y gellir ei ddisgwyl yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y TTT oherwydd:

- Y TTT fydd yn codi'r refeniw uchaf ar gyfer Llywodraeth Cymru;
- Rhagwelir y bydd TTT yn codi tua 6 gwaith cymaint â'r TGT yn 2018/19 (gweler Atodiad 3);
- Trethdalwyr sy'n cymryd rhan mewn trafodiadau mewn perthynas â thir neu eiddo yng Nghymru sy'n talu'r TTT, ac felly mae'n berthnasol i lawer o fusnesau bach a threthdalwyr yn gyffredinol.

Yn ogystal, mae nifer y bobl sy'n talu'r TTT yn sylweddol uwch na'r nifer fach o weithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n talu'r TGT (deunaw o weithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig a restrir ar wefan ACC). Nid yw prynwyr eiddo'n talu'r TTT yn uniongyrchol i'r awdurdod trethi fel rheol. Yn hytrach, mae'r TTT yn cael ei thalu a'i thrafod yn uniongyrchol trwy gyfryngwr: y rhai "sydd wedi eu dal yng nghanol pethau yw'r ymarferwyr" (Drysdale, 2017). Gall presenoldeb a rôl canolwyr trethi effeithio ar y system drethi (OECD, 2008) ac mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach yn dibynnu ar ymarferwyr i bennu eu rhwymedigaethau o ran trethi (FSB, 2018). Cyfreithiwr sy'n cyflawni'r rôl yma fel rheol yn achos y TTT, a nhw sy'n cyflawni'r gwaith gweinyddol ac yn sicrhau cydymffurfiaeth o ran trethi ar ran y trethdalwr. Felly mae safbwyntiau'r cyfreithwyr sydd yn y canol yn bwysig, yn arbennig yn ystod blwyddyn gyntaf y rheolau treth newydd, a'r newidiadau yn y polisi.

# CEFNDIR

Ar 1 Ebrill 2018, daeth dwy dreth newydd sy'n benodol i Gymru i rym, a'r rhain oedd y trethi cyntaf i gael eu cyflwyno gan Lywodraeth yng Nghymru ers bron i 800 mlynedd. Yn yr adroddiad hwn rydyn ni'n cyflwyno ac yn trafod rhai sylwadau yn sgil arolwg a gynhaliwyd gydag aelodau'r Ffederasiwn sy'n berchnogion busnesau bach ym mis Awst 2018 er mwyn pwyso a mesur eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth mewn perthynas â'r trethi datganoledig newydd. Ategwyd hyn trwy gynnal cyfweliadau â chyfreithwyr a leolir yng Nghymru a Lloegr sydd â phrofiad uniongyrchol o ddelio â threthi datganoledig. Mae hyn yn bwrw goleuni ar ymatebion, safbwyntiau a lefelau dealltwriaeth cychwynnol aelodau'r Ffederasiwn ac ymarferwyr.

- Dyma'r ddwy dreth ddatganoledig newydd:
  - Treth Trafodiadau Tir (TTT), sy'n cymryd lle Treth Dir Treth Stamp y DU (TDDS) ar drafodiadau eiddo (gweler Atodiad 1 am wybodaeth am y cyfraddau a'r bandiau), a
  - Threth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) sy'n cymryd lle Treth Dirlenwi'r DU ar wastraff sy'n cael ei waredu trwy dirlenwi.
- Crëwyd awdurdod trethi newydd i Gymru, sef Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), i weinyddu a chasglu'r ddwy dreth ddatganoledig newydd yma.
- O fis Ebrill 2019 ymlaen, datganolir treth incwm yn rhannol i Gymru (gweler Atodiad 2 am wybodaeth am y cyfraddau a'r bandiau). Bydd yr holl dreth incwm y mae trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru'n ei thalu'n dal i gael ei gweinyddu a'i chasglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), ond caiff cyfran o'r dreth hon ei dyrannu i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2). Adeg cyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig gadael cyfraddau treth incwm y flwyddyn nesaf ar y lefel gyfredol (Llywodraeth Cymru, 2018).

Mae'r astudiaeth hon sy'n ystyried blwyddyn gyntaf gweinyddu trethi gan ACC yng Nghymru'n canolbwyntio ar aelodau'r Ffederasiwn fel trethdalwyr, ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes, o ran:

- Lefelau ymwybyddiaeth am y trethi datganoledig newydd; a
- Safbwyntiau ar effaith bosibl y trethi datganoledig, a'r TTT yn benodol.

# CEFNDIR – AMSERLEN DATGANOLI TRETHI

Ar 1 Ebrill 2018, daeth trethi datganoledig newydd Cymru i rym, ochr yn ochr â chreu awdurdod trethi newydd i Gymru (ACC) i'w gweinyddu, gyda datganoli rhannol pellach ar dreth incwm a threthi eraill ar sail bob achos yn unigol i ddilyn.

Ffrwyth trafodaethau hir a pharhaus ar ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru yw'r mesurau pwysig yma: am mai "proses nid digwyddiad" yw datganoli (Torrance, 2018). Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn cynnig amserlen gryno o'r broses sy'n mynd rhagddi, gan fanylu ar ddigwyddiadau allweddol, ac yn rhoi dadansoddiad cryno o waith ACC.

| | |
|---|---|
| **2010** | Galwodd adroddiad terfynol Comisiwn Holtham ym mis Gorffennaf 2010 am ddatganoli pwerau i amrywio trethi, ac argymhellodd ddatganoli trethi eraill hefyd (Holtham, 2010). |
| **2011** | Sefydlwyd Comisiwn Silk ym mis Tachwedd 2011, a'i gylch gorchwyl oedd cyflwyno argymhellion i wella atebolrwydd ariannol. Argymhellodd adroddiad Silk Rhan I (2012) ddatganoli trethi penodol, ynghyd â phwerau i fenthyca mwy, a hynny'n rhannol er mwyn helpu i gadw rheolaeth dros y refeniw cyfnewidiol sy'n dod o drethi. |
| **2014** | Cafodd Deddf Cymru 2014 gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014, gan roi grym i argymhellion Silk. Rhoddodd hyn bwerau newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pwerau i gyflwyno dwy dreth newydd i Gymru i gymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp y DU a Threth Dirlenwi'r DU; a datganoli treth incwm yn rhannol. Cyflwynodd y Ddeddf y pŵer cyffredinol i gyflwyno trethi datganoledig eraill hefyd, a hynny fesul achos unigol (Sefydliad Bevan, 2016). |
| **2015** | Yn Chwefror 2015, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori ar TTT Cymru a ddenodd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan (gyda'r gyfran uchaf o ymatebion yn dod gan ymarferwyr a chyrff proffesiynol), a oedd yn dangos bod yna gefnogaeth dros y TTT ddatganoledig newydd (Llywodraeth Cymru 2015). |
| **2016** | Sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol ACC (yr adran anweinidogol gyntaf i gael ei chreu gan Lywodraeth Cymru), â chyfrifoldeb dros weinyddu a chasglu'r trethi datganoledig naill ai'n uniongyrchol, neu trwy gontract allanol â thrydydd parti. |
| **2017** | Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd rhestr fer o bedwar syniad posibl am drethi i'w defnyddio i brofi Deddf Cymru 2014, sef: ardoll i gynorthwyo gofal cymdeithasol; treth ar dir segur; treth ar blastig untro a threth ar dwristiaid.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd cyfraddau a bandiau'r TTT, sy'n wahanol i Dreth Stamp y DU (gweler Atodiad 1). |
| **Chwefror 2018** | Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnig syniad y dreth ar dir segur i brofi pwerau Deddf Cymru 2014. |
| **Ebrill 2018** | Ym mis Ebrill 2018, daeth ACC yn llwyr weithredol, gan weinyddu'r TTT a godir ar drafodiadau eiddo masnachol a phreswyl yng Nghymru, a'r TGT. |
| **Tachwedd 2018** | Ym mis Tachwedd 2018, postiodd CThEM lythyrau at yr holl drethdalwyr yr oedd wedi eu clustnodi fel trethdalwyr yng Nghymru, ynghyd â thaflen wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ddatganoli treth incwm yn rhannol (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2019). |
| **Ionawr 2019** | Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gyllideb Cymru 2019/20, heb newid dim ar gyfraddau treth incwm Cymru. |

# TRETHI DATGANOLEDIG AC AWDURDOD CYLLID CYMRU

**Cyn mis Ebrill 2018**

Fel y mae'r amserlen yn ei nodi, sefydlwyd ACC yn 2016, â chanddo gyfrifoldeb dros weinyddu a chasglu'r TTT a'r TGT, a oedd yn cymryd lle treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen; gwelwyd trosglwyddiad tebyg o San Steffan i'r Alban yn 2015. Roedd yna deimlad cyffredinol bod y dreth stamp yn addas i'w datganoli oherwydd, po leiaf symudol yw'r sylfaen drethi, po fwyaf addas yw hi i'w datganoli (Melding, 2013). Er bod y TTT a'r TGT yn gymharol fach yn nhermau cyfanswm y refeniw trethi (gweler Atodiad 3) y maent yn ei godi, maent yn cysylltu'n agos â'r meysydd datganoledig allweddol fel tai a'r amgylchedd (Phillips, 2016).

Roedd rhai o aelodau staff allweddol ACC wedi gweithio'n flaenorol dros CThEM (Yr Archwilydd Cyffredinol, 2018), ac roedd hyn yn cynnig rhywfaint o ddilyniant a phrofiad. Un o'r prif nodau a bennwyd ar gyfer ACC oedd sefydlu "Dull Newydd o Weithredu" sy'n

> *"cynnwys gweithio mewn partneriaeth i weinyddu trethi mewn ffordd effeithlon ac effeithiol […] gan weithio gyda threthdalwyr a'u cynrychiolwyr, cyrff aelodaeth a'r cyhoedd" (ACC, 2018).*

Mae ffocws ACC ar gyflawni cysylltiadau effeithiol â chwsmeriaid yn digwydd yn erbyn cefndir lle mae asiantaethau treth mewn gwledydd eraill yn cymryd camau i osod ffocws cadarnach ar gwsmeriaid (Aberbach a Christensen, 2007). Mae'r dull hwn o weithredu'n bwysig am ei fod yn gallu helpu i feithrin ymddiriedaeth yn yr awdurdodau treth (Gayer a Mourre, 2012) ac mae hynny'n arbennig o wir i awdurdod trethi newydd.

Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi cymeradwyo dull gweithredu ACC fel "Dull yr unfed ganrif ar hugain o fynd ati i ymgysylltu" (Powell, 2018). Ers ei sefydlu, mae ACC wedi bod yn cynnal digwyddiadau ar gyfer ymarferwyr a phobl eraill sydd â buddiant, fel cyfarfodydd y Fforwm Treth, gwaith cyfathrebu a gwaith arall i gynnig arweiniad, ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, a ddywedodd fod aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru a staff ACC "yn agored ac yn barod i dderbyn safbwyntiau cyfreithwyr sydd â phrofiad o'r hen drethi, ac sy'n awyddus i wella'r system ar gyfer y rhai newydd" (Powell, 2018).

Yn y misoedd cyn Ebrill 2018 roedd sylwadau mewn rhai cyhoeddiadau ymarferwyr yn canmol ACC; er enghraifft, nodwyd bod cyfrifiannell ar-lein ACC ychydig yn fwy soffistigedig na'r un yr oeddent yn ei defnyddio cynt (CLP, 2018), tra bod rhai sylwadau'n fwy pwyllog, er enghraifft: "Yn amlwg nid yw TTT yn berffaith ar hyn o bryd, ond yn yr un modd â threth dir y dreth stamp (TDDS), rydyn ni'n disgwyl i hyn gael ei esmwytho trwy arweiniad pellach gan ACC, ac i'r peth esblygu gydag amser. Yn y cyfamser, bydd angen i drethdalwyr wneud y gorau gyda'r hyn sydd ar gael iddynt" (BLP, 2018). Cododd sylwadau rhai o'r ymarferwyr y ffaith fod rhai trafodiadau'n pontio ffin, sydd yn "rhanbarth gwledig o hyd i bob pwrpas" (Rowley 2001: 212), a'r anawsterau posibl a allai godi i gyfreithwyr wrth ddelio â'r trafodiadau hyn (Hugh James, 2017, er enghraifft).

**Ers mis Ebrill 2018**

Ers mis Ebrill 2018, mae ACC wedi cyhoeddi y bydd yn diwygio ffurflenni ar-lein y TTT, a hynny mewn ymateb i sylwadau gan gyfreithwyr (cyflwyniad yn Fforwm Trethi ACC). Mae wedi cyhoeddi ystadegau am ei waith hefyd, gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth am y trethi a gasglwyd a'r costau. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol mai £6.246 miliwn oedd cost gweithredu sefydlu ACC (Yr Archwilydd Cyffredinol, 2018). Yn nhermau'r costau parhaus, mae ACC wedi nodi "cyllideb refeniw o £6 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf (2018-19)" (Cynllun Corfforaethol ACC 2018/19). Nododd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod ACC wedi ymateb i adborth mewn ffordd briodol trwy wneud newidiadau perthnasol i'w brosesau a'i arweiniad, a daeth i'r casgliad fod "Awdurdod Cyllid Cymru'n gweithredu'n effeithiol i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru." (Yr Archwilydd Cyffredinol 2018: 7). O ran datganoliad rhannol treth incwm, yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol (2018) rhagwelir y bydd CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gwario rhwng £7,689,000 a £9,689,000 wrth roi'r prosiect ar waith; a rhagwelir y bydd Trysorlys Cymru'n gwario rhwng £36,000 a £41,000 ar weithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.

Yn yr adrannau nesaf, byddwn ni'n cyflwyno ac yn trafod ein canfyddiadau allweddol. Mae pob adran yn cychwyn trwy ddisgrifio'r safbwyntiau a fynegwyd gan berchnogion busnesau bach (yn seiliedig ar eu hatebion i'r holiadur) ac yna'n ail, safbwyntiau ychwanegol yr ymarferwyr (yn seiliedig ar y cyfweliadau ffocws). Yn olaf, mae adran ar wahân yn darparu gwybodaeth newydd am safbwyntiau cyfreithwyr ar yr heriau penodol a gododd yn sgil y TTT.

# CANFYDDIADAU YN SGIL YR AROLWG YMYSG AELODAU'R FFEDERASIWN A'R CYFWELIADAU Â CHYFREITHWYR

### Cyd-destun y canfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn gyntaf ar safbwyntiau aelodau'r Ffederasiwn yng Nghymru, wedyn safbwyntiau ymarferwyr cyfreithiol proffesiynol, am y trethi sydd newydd eu datganoli i Gymru. Ein nod oedd cynnwys safbwyntiau cynghorwyr proffesiynol, am fod gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod busnesau bach yn dibynnu'n helaeth ar arbenigwyr trethi (FSB, 2018) am gymorth ac arweiniad ar weinyddu trethi a chydymffurfiaeth o ran trethi. Yn wir, roedd ein gwaith arolygu ein hunain yn adlewyrchu hyn, gan ddangos bod 60 y cant o gwmnïau'n defnyddio cyfrifydd i weinyddu eu trethi


Ym mis Awst 2018, hanner ffordd trwy flwyddyn gyntaf gweithredu'r trethi datganoledig newydd, ymatebodd 264 o aelodau'r Ffederasiwn i holiadur ar y we a anfonwyd at aelodau'r Ffederasiwn er mwyn gofyn cyfres o gwestiynau am eu hymwybyddiaeth am drethi datganoledig, ACC a'r ffordd y mae'n gweinyddu'r TTT. Roedd yr holiadur yn cynnwys cyfleoedd i'r ymatebwyr gynnig sylwadau ychwanegol ar faterion penodol mewn blychau testun agored hefyd. Cafodd y data yma ei ategu wedyn gan 16 cyfweliad ag ymarferwyr/cyfreithwyr sy'n gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn achos y TTT, ychydig iawn o drethdalwyr fydd yn dod i gysylltiad uniongyrchol ag ACC am eu bod yn dibynnu ar wasanaethau cyfreithwyr i weithredu ar eu rhan fel rheol. Am hynny, mae safbwyntiau a gwybodaeth cyfreithwyr am y TTT yn bwysig, am mai'r ymarferwyr hyn sy'n delio â system y TTT yn ymarferol, ac yn gweithredu fel rhyngwyneb rhwng ACC a'r trethdalwyr, gan drosglwyddo gwybodaeth a'u safbwyntiau i'w cleientiaid sy'n drethdalwyr.

# 1. Ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru

### Aelodau'r Ffederasiwn

Nododd mwyafrif o 66% o aelodau'r Ffederasiwn a ymatebodd i'r arolwg ym mis Awst 2018, hanner ffordd trwy flwyddyn gyntaf y trethi datganoledig newydd, fod ganddynt ddiffyg ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru (gweler Graff 1). Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth gan lawer ohonynt, gydag un yn nodi mai'r arolwg oedd "y tro cyntaf i mi glywed am y peth" (ID 267). Yn ôl un arall, nid oedd "unrhyw wybodaeth/rhy ychydig o wybodaeth" wedi bod (ID. 717). Ychwanegodd un arall nad oedd yn gallu dibynnu ar ei gyfrifydd i'w hysbysu am fod eu practis y tu allan i Gymru, ac "nad oes unrhyw wybodaeth ganddo am y pwerau datganoledig newydd [yng Nghymru]" (ID. 181).

**Graff Dangosol 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol:**




Gallai'r diffyg ymwybyddiaeth yma fod yn rhannol oherwydd nad yw'r trethi sydd wedi eu llwyr ddatganoli'n codi symiau sylweddol (gweler Atodiad 3). Fodd bynnag, fel yr unig drethi sydd wedi eu llwyr ddatganoli o fewn pwerau'r Cynulliad, mae gan y trethi hyn arwyddocâd y tu hwnt i faint o arian y maent yn ei godi. Fodd bynnag, mae ymchwil o'r Alban (Fforwm Polisi Trethi'r Alban, 2018) ac ymatebion aelodau'r Ffederasiwn, yn awgrymu, i raddau helaeth, bod diffyg ymwybyddiaeth am y trethi datganoledig. Mae hyn yng nghyd-destun ymwybyddiaeth isel am drethi yn y DU yn gyffredinol, a hynny'n rhannol oherwydd system drethi lle nad yw'r mwyafrif o drigolion y DU yn ffeilio ffurflenni trethi, ac felly nid ydynt yn ymgysylltu â'r system yn ymarferol (Alexander a Balavac, 2018).

Ar y cyfan, roedd gan y lleiafrif o ymatebwyr a nododd ryw ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru, ymwybyddiaeth dda am y mathau o drethi a ddatganolwyd i Gymru mewn ymateb i gwestiynau pellach yn yr arolwg am natur y trethi datganoledig. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yna leiafrif bach o berchnogion busnesau bach sy'n wybodus, a grŵp mwy sy'n brin o wybodaeth ac ymwybyddiaeth am y trethi datganoledig newydd yng Nghymru.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a nododd ryw ymwybyddiaeth eu bod wedi cael eu gwybodaeth am drethi datganoledig trwy'r cyfryngau (83%). Ond cwta 9% a nododd eu bod wedi cael gwybodaeth gan eu cyfrifydd neu lyfrifwr (gweler Graff 2). Mae hyn yn syndod yng ngoleuni adroddiad blaenorol gan y Ffederasiwn a ganfwyd fod y rhan fwyaf o aelodau'r Ffederasiwn yn dibynnu ar eu cyfrifwyr i'w hysbysu a'u cynorthwyo i ddelio â'u trethi (FSB, 2018).


**Graff Dangosol 2: O ble y cawsoch chi'ch gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth am y Trethi Cymreig newydd?**




*Atebodd 103 y cwestiwn yma o gyfanswm o 264 o ymatebwyr*

Fe ofynnon ni i'r aelodau pwy oedden nhw'n meddwl ddylai fod yn eu hysbysu am drethi datganoledig Cymru. Dywedodd 80% o'r holl ymatebwyr eu bod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru eu hysbysu (gweler Graff 3). Dywedodd un o aelodau'r Ffederasiwn "dylai LlC gyhoeddi rhywbeth sydd mor bwysig â hyn yn glir ac yn gryno" (ID. 527) a dywedodd un arall fod "Dyletswydd gofal gan Lywodraeth Cymru i aelodau/yr etholaeth i sicrhau bod pobl yn deall y newidiadau" (ID. 825). Dywedodd bron i 40% o'r ymatebwyr y byddent yn disgwyl i'w cyfrifydd a/neu ACC eu hysbysu.

**Graff dangosol 3: Pwy ydych chi'n credu ddylai fod yn eich hysbysu am drethi datganoledig yng Nghymru?**




*Atebodd 201 y cwestiwn yma o gyfanswm o 264 o ymatebwyr*

**Cyfreithwyr**

Dangosodd y cyfweliadau â chyfreithwyr hefyd fod yna ddiffyg ymwybyddiaeth am drethi datganoledig ymysg cleientiaid a oedd yn prynu eiddo yng Nghymru hefyd, ac mae hynny'n gyson â chanfyddiadau'r arolwg, er enghraifft:

> *"Dwi ddim yn credu bod llawer o bobl yn ymwybodol bod dwy system wahanol" (Cyf 6).*


Nid oedd neb a ymatebodd i arolwg y Ffederasiwn yn disgwyl i gyfreithwyr eu hysbysu am y trethi datganoledig newydd yng Nghymru, ond yn ymarferol, nododd pob un o'r cyfreithwyr a gafodd gyfweliadau eu bod wedi cyflawni'r rôl yma wrth ddelio â thrafodiadau cleientiaid sy'n dod o fewn cwmpas y TTT.

# 2. Safbwyntiau am effaith bosibl trethi datganoledig Cymru

**Aelodau'r Ffederasiwn**


Holwyd aelodau'r Ffederasiwn beth oedden nhw'n meddwl y byddai effaith y trethi datganoledig newydd ar eu busnes, yn nhermau amser a chostau cydymffurfiaeth. Mae Graffiau 4 a 5 yn dangos bod lleiafrif bach o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r trethi datganoledig yn cynyddu'r amser (54%) a'r costau (56%) sydd ynghlwm wrth gydymffurfio â'r gofynion trethi. Dylid dehongli'r ymatebion hyn yng nghyd-destun yr ymwybyddiaeth brin am y trethi yma. Fodd bynnag, nid yw hi i'w gweld yn afresymol tybio y byddai trethi pellach yn gwneud y system drethi'n fwy cymhleth eto. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai cyflwyno trethi datganoledig yng Nghymru: yn arwain at "ddyblygu gwaith rhwng gweinyddiaeth y DU a Chymru" (ID. 769); yn ychwanegu "haen arall o fiwrocratiaeth" i fusnesau ymdrin â hi (ID. 527); a phan fo newidiadau'n cael eu gwneud, mae hynny'n gwneud trethi "yn rhy anodd eu deall" (ID. 235). Er mai cyfyngedig yw effaith y trethi datganoledig newydd ar gydymffurfiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o drethdalwyr yn ymarferol, gallai meddu ar well gwybodaeth am y trethi dawelu meddwl perchnogion busnesau bach, ac efallai newid eu safbwynt am effaith y trethi datganoledig newydd, gan amlygu manteision gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ymysg trethdalwyr.

**Graff Dangosol 4: Pa effaith ydych chi'n disgwyl i drethi datganoledig newydd Cymru ei chael ar weinyddiaeth trethi eich busnes, yn nhermau'r amser sydd ei angen i gydymffurfio?**




*Atebodd 201 y cwestiwn yma o 264 i ymatebwyr*

**Graff Dangosol 5: Pa effaith ydych chi'n disgwyl i drethi datganoledig newydd Cymru ei chael ar weinyddiaeth trethi eich busnes, yn nhermau costau cydymffurfiaeth?**




*Atebodd 201 y cwestiwn yma o 264 i ymatebwyr*

Nododd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr o'r Ffederasiwn na fyddai trethi datganoledig yn effeithio dim ar eu hamser (44%) na'u costau cydymffurfiaeth (41%). Er enghraifft, wrth sôn am dreth incwm, dywedodd un ymatebwr "ar ôl cwblhau'r newidiadau cychwynnol i glustnodi trigolion Cymru, a chofnodi'r cyfraddau, ni ddylai gostio dim mwy i gydymffurfio ag ef." (ID. 493). Dylid nodi hefyd bod y rhan fwyaf o ymatebwyr (61%) yn defnyddio gwasanaethau cyfrifwyr i gyflawni eu cydymffurfiaeth o ran trethi, a hwyrach dyna pam nad yw rhai ymatebwyr yn teimlo y caiff y trethi datganoledig effaith ar eu hamser, am fod y cyfrifydd yn delio â'r peth ar eu rhan.

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr i arolwg y Ffederasiwn y byddai'n well ganddynt ddelio â swyddogion treth Llywodraeth Cymru (64%) yn hytrach na swyddogion treth nad ydynt o Lywodraeth Cymru (36%). Mae hyn yn gyson â gwaith ymchwil blaenorol sydd wedi amlygu anawsterau wrth ddelio â CThEM, er enghraifft am nad oedd llawer o fusnesau bach "yn gallu cael gafael ar gynghorwyr gwybodus yn CThEM ar ôl aros am amser hir (FSB, 2018:28).

### Cyfreithwyr

Roedd y cyfweliadau ag ymarferwyr cyfreithiol yn gyfle i archwilio eu hagweddau at ddatganoli trethi. Er na nododd llawer unrhyw safbwynt, roedd rhai yn erbyn y peth, ac eraill o blaid, gyda'r mwyafrif yn nodi y byddai'n cymryd amser i'r effaith ddod yn glir: "A fydd hyn yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru fwy o refeniw neu lai o refeniw, dwi ddim yn siŵr. Amser a ddengys." (Cyf 2)

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y disgwylir i ddatganoli trethi gael rhyw effaith, a daw union natur hynny i'r amlwg yn y blynyddoedd sydd i ddod.


# 3. Ymwybyddiaeth am Dreth Trafodiadau Tir (TTT) newydd

### Aelodau'r Ffederasiwn

Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst 2018, bum mis ar ôl i TTT ddod i rym. Fe ofynnon ni i'r aelodau i ba raddau yr oeddent yn ymwybodol o'r newidiadau i TDDS. Yn yr un modd â'r diffyg ymwybyddiaeth a nodwyd mewn perthynas â threthi datganoledig yn gyffredinol, nid oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr fawr o ymwybyddiaeth, neu roedd ganddynt ddiffyg ymwybyddiaeth llwyr am y TTT. Dim ond 64 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn i brocio ymwybyddiaeth am y TTT. O'r rhain, roedd 61% yn ymwybodol o'r newidiadau i'r trothwyon, 55% o'r newid i'r enw TTT, 54% o'r newidiadau i'r cyfraddau, ac roedd lleiafswm, sef 38%, yn ymwybodol o'r newid yn yr awdurdodau treth sy'n casglu'r dreth.

Mae Graff 6 yn dangos y gyfran o ymatebwyr a oedd yn gywir yn eu hymwybyddiaeth am y newidiadau penodol i TDDS.

**Graff Dangosol 6: O ran y newidiadau i dreth tir y dreth stamp yng Nghymru, pa rai o'r newidiadau canlynol ydych chi'n ymwybodol ohonynt?**




*Atebodd 64 y cwestiwn yma o gyfanswm o 264 o ymatebwyr*

### Cyfreithwyr

Nid oedd hi'n syndod bod y cyfreithwyr yn wybodus iawn am y TTT, am eu bod wedi cael eu targedu i dderbyn gwybodaeth. Dywedodd un cyfreithiwr:

> *"cawsom lwyth o negeseuon e-bost. Roedd hi'n amhosibl peidio â gwybod eu bod [y newidiadau i TDDS] ar y ffordd, a bod angen i ni ddysgu system newydd. Cafodd y peth ei hysbysebu'n drwm yn y Law Gazette. Cawsom negeseuon e-bost uniongyrchol gan [...] ACC [...] Roedd yna weithdai [ACC] y gallech eu gwneud ar-lein" (Cyf 9).*

Yn gyson â safbwyntiau aelodau'r Ffederasiwn ar sail yr arolwg, soniodd y cyfreithwyr fod lefel isel o ymwybyddiaeth ynghylch y TTT ymysg cleientiaid. Oherwydd natur y drefn weinyddol wrth brynu eiddo, mae cyfreithiwr yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am y TTT ar gyfer trethdalwyr, er nad oedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cydnabod hynny. Holwyd y cyfreithwyr am ffynonellau gwybodaeth posibl eraill ar gyfer eu cleientiaid, fel gwerthwyr tai, sy'n sianel cyfathrebu a awgrymwyd gan eraill (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2019). Cafodd yr awgrym ei ddiystyru i bob pwrpas, gyda sylwadau fel "ychydig iawn y mae gwerthwyr tai yn ei wybod [am hyn]" (Cyf 8).

Soniodd bron pob un o'r cyfreithwyr am achosion lle bu angen iddynt addysgu eu cleientiaid, oherwydd eu diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r TTT. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu y bu angen i'r cyfreithwyr rannu newyddion drwg, er enghraifft lle byddai'r TTT yn uwch na'r TDDS. Mater a gododd drosodd a thro oedd y diffyg rhyddhad i brynwyr am y tro cyntaf o dan y TTT yng Nghymru. Dywedodd un cyfreithiwr,

> *"Roedden nhw jyst yn tybio, am eu bod nhw'n prynu am y tro cyntaf, y bydden nhw'n cael y rhyddhad prynwr tro cyntaf y byddent wedi clywed amdano, oherwydd yn amlwg, roedd hynny wedi cael ei ddatgan fel rhyw fath o benderfyniad polisi cenedlaethol i helpu pobl oedd yn prynu am y tro cyntaf.  A dwi ddim yn credu bod y negeseuon nad yw hynny'n wir yng Nghymru rhagor wedi treiddio drwodd. Wel, dyw hi ddim yn wir yng Nghymru mwyach, mae rhyddhad prynwr tro cyntaf wedi mynd" (Cyf 5).*

a,

> *"Doedd dim syniad ganddyn nhw. Nac oedd. Achosodd hyn ambell i broblem gyda rhai o'n prynwyr tro cyntaf mwy cefnog, oherwydd nôl ym mis Rhagfyr, newidiodd yr Awdurdod Cyllid eu Rhyddhad Prynwyr Tro Cyntaf. Dywedwch fod prynwr tro cyntaf yn prynu tŷ gwerth £200,000 ym mis Rhagfyr, gallai fod wedi costio £1,500 iddyn nhw cyn i'r rheolau newydd ddod i rym, felly roedden nhw wrth eu boddau bod £1,500 ganddyn nhw at eu harian Nadolig, on'd oedd, yn Rhagfyr y llynedd. Os symudwn ni ymlaen bum mis, mae gyda ni bobl sydd wedi bod yn cynilo, ac maen nhw'n brynwyr tro cyntaf hŷn. Os oes ganddyn nhw dŷ £240k, dywedwch, fydden nhw ddim yn talu unrhyw Dreth Stamp, ond am eu bod nhw dros y ffin, chi'n edrych ar filoedd. Doedden nhw ddim yn ein credu ni. Roedden nhw am dalu CThEM on'd oedden nhw? Doedden nhw ddim am dalu ACC. Doedden nhw ddim yn hoffi'r peth." (Cyf 15)*

Ategodd sawl cyfreithiwr nad oedd rhai cleientiaid "yn eu credu nhw" pan roedden nhw'n dweud bod angen iddyn nhw dalu'r TTT wrth brynu eiddo am y tro cyntaf. Mae diffyg ymwybyddiaeth am y newidiadau newydd i TDDS ymysg eu cleientiaid yn gosod cyfreithwyr mewn sefyllfa lle mae angen iddynt "rannu newyddion drwg" (Cyf 9) i gleientiaid. Yn gyferbyniol, cynigiodd cyfreithwyr esiamplau hefyd lle bu rhaid iddynt rannu "newyddion da" o dan y drefn TTT, lle byddai prynwyr yn talu llai nag y byddent wedi gorfod ei dalu o dan TDDS, er enghraifft:

> *"Dwi wedi rhannu newyddion da hefyd, yn enwedig lle'r oedd gen i drafodiad wedi ei amserlennu i ddigwydd cyn mis Ebrill pan roddais i ddyfynbris ar gyfer TDDS, a chwblhawyd y gwerthiant ddiwedd Mai, ac roedd gwahaniaeth aruthrol... felly'n amlwg roedden nhw'n hapus ynglŷn â hynny." (Cyf 4).*

Defnyddio'r system dreth sy'n dod ag ymwybyddiaeth (Alexander a Balavac, 2018) ac mae'r ymwybyddiaeth yma'n ddwysach i'r rhai sydd ar eu hennill ac ar eu colled o dan y system. Ni ddywedodd neb a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn disgwyl i'w cyfreithiwr eu hysbysu am y newidiadau o ran y trethi datganoledig newydd. Ond yn ymarferol, mae ein cyfweliadau'n dangos y rôl bwysig y mae cyfreithwyr yn ei chwarae fel rhyngwyneb rhwng ACC a'r trethdalwyr, gan godi ymwybyddiaeth a hysbysu trethdalwyr am drethi datganoledig Cymru.

# 4. Safbwyntiau am effaith bosibl y Dreth Trafodiadau Tir (TTT)

Yn olaf, rhoddodd y cyfweliadau ag ymarferwyr gyfle i ni bwyso a mesur eu safbwyntiau penodol am effaith y TTT ar eu busnesau a'u harferion.

**Cyfreithwyr: effaith ar weinyddiaeth**

Dywedodd y cyfreithwyr a gafodd gyfweliadau â ni y bu ganddynt bryderon ar y cychwyn am effeithiau posibl gorfod delio â'r newidiadau newydd wrth bontio o TDDS i'r TTT, sy'n rhywbeth a gododd yn yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori yn 2015 hefyd (Llywodraeth Cymru, 2015). Fodd bynnag, dywedodd y cyfreithwyr eu bod yn fodlon ar y ffordd y cyflawnwyd pontio o TDDS i'r TTT ym mis Ebrill 2018, gan ddweud, y bu'r gweithdrefnau ar gyfer y TTT yn "agos iawn at drefn TDDS" yn ymarferol (Cyf 13), ac y bu hyn o gymorth wrth osgoi profiadau "dryslyd" a "chythrwfl" i gyfreithwyr (Cyf 13). Ar y cyfan, roedd y cyfreithwyr yn teimlo y bu'r broses bontio'n "ddigon rhwydd…[a] chefais fy siomi ar yr ochr orau am fy mod i'n poeni y byddai'n anodd" (Cyf 5), ac "roeddem ni wir wedi meddwl y byddai'n dipyn o berfformiad, ond allai hi ddim fod wedi bod yn symlach" (Cyf 9). Cododd rhai cyfreithwyr bethau yr oeddent yn cydnabod oedd yn bwyntiau bychain o ran sut y gellid bod wedi gwella sut oedd y ffurflen TTT wedi'i lunio.

Fel y soniwyd eisoes, mynegodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg ei bod yn well ganddynt ddelio â swyddogion Llywodraeth Cymru na swyddogion nad oeddent o Lywodraeth Cymru, fel CThEM, ac adlewyrchwyd hynny'n gadarn yn ein cyfweliadau â'r cyfreithwyr.

Mynegodd pawb ond un o'r cyfreithwyr a gafodd gyfweliadau flaenoriaeth gadarn dros ddelio â swyddogion ACC yn hytrach na CThEM. Er enghraifft;

> *"Mae'n well cysylltu ag ACC. Os oes ymholiad gennych chi, maen nhw'n dod nôl atoch chi'r diwrnod wedyn fel rheol […] Maen nhw'n gyflym iawn iawn, ac maen nhw'n rhoi ateb llawn i'ch cwestiynau hefyd […] Doeddwn i jyst ddim yn siŵr am edrych ar yr arweiniad. Fe e-bostiais i nhw, a ches i ateb. Felly roedd yn grêt. Mae'n well cysylltu â nhw, oherwydd wrth fynd at CThEM, rydych chi'n aros ar y lein am dros awr. Dydyn nhw ddim yn dweud dim ta beth" (Cyf 7),*

a,

> *"Mae CThEM yn hurt o brysur, wedi eu gorymestyn yn llwyr. Does dim digon o bobl yn ateb galwadau ffôn, ac maen nhw'n amlwg yn anodd cael gafael arnyn nhw. Yn aml, pan fyddwch chi'n cael gafael ar rywun [yn CThEM] rydych chi'n llwyddo i symud ymlaen gyda rhywbeth, ond mae hi'n cymryd amser hir i gyrraedd y pwynt yna… gydag ACC, fy mhrofiad oedd cysylltu â rhywun yn syth ac roedden nhw'n barod iawn i roi galwad nôl neu roi rhif i mi gysylltu â rhywun. [Fe siaradais i] yn uniongyrchol â'r person priodol, a oedd yn golygu y cafodd y broblem a oedd gen i ei datrys yn gyflym iawn" (Cyf 14). someone on. [I] speak directly with the relevant person which meant that this issue we did have was very quickly resolved" (Int 14).*

### Cyfreithwyr: effaith bosibl TTT ar ymddygiad trethdalwyr

Fe ofynnon ni am ddisgwyliadau cyfreithwyr o ran effaith bosibl y newid i'r TTT o'r TDDS ar ymddygiad trethdalwyr. Mae hi'n bosibl y gallai newidiadau a gwahaniaethau mewn cyfraddau a bandiau treth rhwng awdurdodaethau ddylanwadu ar ymddygiad trethdalwyr (Fforwm Polisi Trethi'r Alban, 2018). Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori ar y TTT wedi codi'r posibilrwydd yma (Llywodraeth Cymru, 2015).

Roedd sawl un o'r rhai a gafodd gyfweliadau'n teimlo mai bach iawn fyddai'r effaith am fod y TTT yn dreth untro yn hytrach na threth gylchol. Fodd bynnag, roedd sawl cyfreithiwr sy'n gweithio'n agos i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn teimlo y gallai newidiadau i TDDS ddylanwadu ar ymddygiad trethdalwyr. Er enghraifft, codwyd y ffaith y gallai cyfraddau treth uwch am eiddo gwerth uchel yng Nghymru ddarbwyllo trethdalwyr i brynu eiddo y tu allan i Gymru. Roedd gan un cyfreithiwr gleient a oedd wedi ystyried prynu eiddo ym Mryste (yn agos i'r ffin â Chymru) yn hytrach nag eiddo yng Nghymru, er mwyn osgoi talu cyfraddau trethi uwch yng Nghymru. Nododd y cyfreithiwr bryder y byddai cleientiaid yn mynd "dros y ffin yn hytrach na thalu [y TTT]" (Cyf 10) oherwydd y bandiau a'r cyfraddau trethi gwahanol.

### Cyfreithwyr: effaith y ffin rhwng Cymru a Lloegr

Yn dilyn hyn, pwysleisiodd rhai cyfreithwyr yr angen am eglurder o ran lleoliad y ffin er mwyn pennu pa gyfraddau sy'n berthnasol ymhle.

Dywedodd yr un cyfreithiwr na ddywedodd ei bod yn well ganddo ddelio ag ACC (ac a nododd yn benodol nad oedd hynny'n golygu bod yn well ganddo siarad â CThEM chwaith), bu problemau wrth ddelio â swyddogion CThEM ac ACC fel ei gilydd, am nad oeddent wedi rhoi atebion defnyddiol o ran a oedd eiddo penodol ger y ffin yng Nghymru ynteu yn Lloegr.

Yn nhermau gweinyddiaeth, cododd llawer o gyfreithwyr bryderon ynghylch "eiddo ar y ffin" sef eiddo sy'n agos i, neu ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr:

> *"Y broblem fwyaf sydd gennym ni yw gweithio allan a yw eiddo – ar ba ochr i'r ffin y mae e, oherwydd ychydig iawn o wybodaeth sydd yna am union leoliad y ffin" (Cyf 6)*

Mynegodd sawl cyfreithiwr sy'n gweithio ger y ffin eu dymuniad am ffordd rwydd o ganfod yn gyflym a yw eiddo yng Nghymru ynteu yn Lloegr at ddibenion y TTT a TDDS; nododd sawl un y byddent yn hoffi gwneud hyn trwy wefan ACC, drwy ryw fath o system cronfa ddata i glustnodi'n syth pa awdurdodaeth y mae eiddo'n perthyn iddi, neu a yw'n perthyn i'r ddwy.

Nododd rhai cyfreithwyr nad yw ACC na CThEM wedi llwyr ddelio â'r mater am eiddo sydd ar y ffin. Dywedodd un cyfreithiwr:

> *"ym mhob math o sesiwn [hyfforddi ACC] rydw i wedi'i mynychu, mae'r cwestiwn wedi'i godi: beth am yr eiddo ar y ffin? [...] Ar y cychwyn roedden nhw'n dweud taw rhyw drideg eiddo oedd hyn. Ond mae'r nifer yn fwy na hynny... ond dwi ddim yn credu bod hyn wedi cael ei ddatrys. Felly mae dweud bod y cyfreithwyr yn gallu delio â'r peth yn annerbyniol, oherwydd allwn ni ddim. Felly bydd angen i'r cleientiaid hyn gyflogi syrfewyr i gyflawni'r prisiadau yna. Yna'r cyfreithwyr sy'n gorfod cyfrifo hynny" (Cyf 10).*

Oherwydd y cyfraddau treth gwahanol, gall pennu lleoliad eiddo sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr effeithio ar faint o dreth sy'n daladwy. Adroddood cyfreithwyr eu bod yn teimlo'n ddiangen o gyfrifol am wneud penderfyniadau o ran ymhle y lleolir (rhan o) eiddo at ddibenion treth. Yn y cyd-destun hwn, mae ein hastudiaeth yn amlygu effaith y newid i'r TTT o TDDS, a'r gwahanol gyfraddau a bandiau treth: mae wedi gosod baich ychwanegol ar y cyfreithwyr sy'n gorfod delio ag ansicrwydd a disgresiwn o ran y dreth sy'n ddyledus am drafodiadau mewn perthynas ag eiddo ar y ffin.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

1. Mae'r ymatebion i arolwg y Ffederasiwn a'r data o'r cyfweliadau â chyfreithwyr yn dangos bod yna lefel isel o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am drethi datganoledig Cymru, gan gynnwys y TTT.
2. Dywedodd y mwyafrif o aelodau'r Ffederasiwn a ymatebodd eu bod am gael gwybodaeth am drethi datganoledig gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd cyfran fach eu bod yn disgwyl i'w cyfrifwyr eu hysbysu am bolisi trethi sydd ar y gweill.
3. Mae dull ACC o fynd ati i ymgysylltu a denu cyfranogaeth gan gyfreithwyr sy'n delio â'r TTT wedi gweithio'n dda o ran bod lefelau da iawn o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg y grŵp targed yma.
4. Cyfeiriodd rhai cyfreithwyr at ddiffyg eglurder ac arweiniad ar rai agweddau, gan gynnwys eiddo ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
5. Canfyddiad y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r Ffederasiwn oedd y byddai'r trethi datganoledig newydd yn gwneud pethau'n fwy cymhleth, ac y byddent yn cynyddu amser a chostau cydymffurfiaeth. Dylid dehongli hyn yng nghyd-destun y lefel isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r trethi datganoledig newydd. Mae'n awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth yn cynyddu'r ansicrwydd i berchnogion busnesau bach sy'n poeni am bethau'n mynd yn fwy cymhleth. Mae'n awgrymu hefyd bod yna le i ddelio gyda rhai o'r pryderon hyn trwy helpu trethdalwyr i fod yn fwy gwybodus.
6. Mae cyfreithwyr yn sianel bwysig i gynyddu ymwybyddiaeth am drethi datganoledig a lledaenu gwybodaeth am y TTT newydd ymysg trethdalwyr. Nododd rhai cyfreithwyr fod baich cynyddol arnynt i godi ymwybyddiaeth trethdalwyr am y TTT mewn achosion lle'r oedd angen iddynt rannu newyddion drwg i gleientiaid am gynnydd yn y dreth sy'n daladwy.
7. Nododd y mwyafrif llethol o berchnogion busnesau bach a chyfreithwyr ei bod yn well ganddynt ddelio â swyddogion Llywodraeth Cymru, fel ACC, yn hytrach na swyddogion nad oeddent o Lywodraeth Cymru, fel CThEM. Dywedodd y cyfreithwyr eu bod wedi cael cymorth amserol, manwl ac ystyrlon gan swyddogion ACC o gymharu â CThEM.
8. Mynegir pryderon o hyd am y potensial i'r gwahaniaeth yn y cyfraddau rhwng y TTT a TDDS ddylanwadu ar ymddygiad trethdalwyr, a chamliwio'r farchnad eiddo, yn arbennig ger y ffin.
9. Perodd yr arolwg i rai ymatebwyr ddod yn ymwybodol o drethi datganoledig yng Nghymru am y tro cyntaf. Mae hyn yn ategu pwysigrwydd y gwaith y mae'r Ffederasiwn yn ei wneud wrth rannu gwybodaeth gyfoes ag aelodau am y materion pwysig sy'n effeithio arnynt.

# ARGYMHELLION

1. Mae angen cyflawni gwaith pellach i gynyddu lefel yr ymwybyddiaeth am drethi datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn her, am fod trethi'n bwnc sydd o ychydig iawn o ddiddordeb i bobl ar y cyfan, oni bai bod cefndir ariannol ganddynt.
2. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru ac ACC yn cyfeirio'u gwaith cyfathrebu a'u dull o weithredu ym maes codi ymwybyddiaeth am newidiadau i drethi yng Nghymru yn y dyfodol at berchnogion busnesau bach a'r cyhoedd, yn enwedig yng ngoleuni datganoli trethi incwm yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n dangos y bu ffocws cadarn a buddsoddiad mawr o ran adnoddau ar hysbysu a hyfforddi ymarferwyr (fel cyfreithwyr a chyfrifwyr), a ffocws llai ar berchnogion busnesau bach. O ganlyniad, mae hyn yn symud rhywfaint o'r baich o godi ymwybyddiaeth trethdalwyr am newidiadau o'r fath i'r ymarferwyr, ac yn cynyddu'r baich o ran cost ac amser ar gyfer yr ymarferwyr, er bod ein hastudiaeth mewn gwirionedd yn dangos bod trethdalwyr yn dweud y byddai'n well ganddynt gael y wybodaeth yma'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac ACC.
3. Mae angen arweiniad pendant a hygyrch ar fater y ffin, mewn perthynas ag eiddo ger y ffin, ac 'ar y ffin', fel bod modd cyfrifo'r trethi cywir a'u talu i'r awdurdodaeth gywir. Bydd hyn yn lleihau'r ansicrwydd i gyfreithwyr a threthdalwyr hefyd. Rydyn ni'n argymell ymchwilio i ddarparu cyfleuster ar-lein sy'n gallu hysbysu defnyddwyr yn gyflym ai'r TTT neu TDDS fyddai'n daladwy wrth brynu eiddo penodol.
4. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu pa mor effeithiol yw dulliau ACC o ddarparu ei wasanaethau i'r rhan fwyaf o berchnogion busnesau bach, ac i bawb ond un o'r cyfreithwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth. Mae swyddogion ACC yn darparu cymorth a chyngor amserol a manwl. Rydyn ni'n argymell bod ACC yn parhau i adeiladu ar yr arferion hyn a'u datblygu, gan roi arweiniad ystyrlon ac effeithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau.
5. Gan dynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, dylid cyflawni gwaith pellach i asesu unrhyw effaith ar ymddygiad trethdalwyr yn sgil y gwahaniaeth yn y cyfraddau treth rhwng y TTT a'r TDDS.
6. Mae'r gwaith ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi awgrymu lefelau isel o ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru ymysg trethdalwyr. Mae datganoliad rhannol treth incwm yn gyfle da i gynyddu ymwybyddiaeth am drethi datganoledig Cymru yn gyffredinol. Pan ddaw cyfraddau treth incwm Cymru'n weithredol, dylid cyflawni gwaith ymchwil pellach i archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatganoliad rhannol treth incwm yng Nghymru ac effaith hyn ar drethdalwyr a busnesau bach.

# METHODOLEG

Defnyddiwyd dull ymchwil cymysg i gyflawni'r astudiaeth hon. Cyflawnwyd arolwg FSB Cymru ar drethi datganoledig Cymru yn haf 2018, er mwyn pwyso a mesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yr aelodau o'r trethi datganoledig newydd a'r ACC yn ystod eu blwyddyn weithredol gyntaf. Cafodd aelodau FSB Cymru eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg trwy e-bost. Ymatebodd cyfanswm o 264 o unigolion i'r arolwg, ac o'r rheiny, cwblhaodd 180 o aelodau'r arolwg yn gyflawn. Yn yr achosion lle na atebodd rhai ymatebwyr yr holl gwestiynau, rydyn ni wedi nodi'r manylion yn adran Canfyddiadau'r adroddiad. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn Ne Cymru (52%), wedyn Gogledd Cymru (31%) ac wedyn y Canolbarth (17%). Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfleoedd i nodi sylwadau. Rhoddwyd rhif adnabod (ID) a aseiniwyd ar hap i bob ymatebwr at gyfer unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol a godwyd o sylwadau'r aelodau.

Er mwyn ategu canlyniadau'r arolwg, a chael cip cychwynnol ar y meysydd lle gallai fod angen sylw ac ymchwil pellach, cynhaliwyd cyfweliadau â chyfreithwyr eiddo a throsglwyddwyr eiddo sy'n delio â'r Dreth Trafodiadau Tir (TTT) yn rheolaidd. Cynhaliwyd 16 o gyfweliadau ag ymarferwyr sy'n gweithio mewn amrywiaeth o wahanol gwmnïau, oedd yn amrywio o gwmnïau un swyddfa i rai aml-swyddfa, ac un cwmni mawr rhyngwladol. Roedd y bobl a gafodd gyfweliadau yn gweithio yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl ACC, ar 15 Ebrill 2018 roedd 27% o'r holl ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru am y TTT wedi'u lleoli yng Nghymru a 72% yn Lloegr (ystadegau Cofrestru ACC). Roedd 9 o'r cyfreithwyr yn gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru; a 7 yn gweithio yn Lloegr ar hyd gwahanol rannau o'r ffin, ac eithrio 1 sy'n gweithio yn Llundain. Cynhaliwyd pob un ond 2 o'r cyfweliadau yng ngweithle'r cyfreithwyr, a chafodd pob un ond 1 eu recordio a'u trawsgrifio (cymerwyd nodiadau manwl ar gyfer yr 1 arall). Dechreuodd y cyfweliadau trwy roi sicrwydd y byddent yn aros yn ddienw, a rhoddwyd rhif a ddyrannwyd ar hap ar gyfer pob cyfweliad, a nodir hynny wrth y dyfyniadau uniongyrchol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

# LLYFRYDDIAETH

Aberbach J.D. a Christensen T. (2007) “The challenges of modernizing tax administrations: Putting Customers First in Coercive Public Organizations,” Public Policy and Administration, 22(2), 155-82

Alexander P., a Blavac, M. (2018) Improving tax literacy and tax morale of young adults End of Project report to the Chartered Institute of Taxation

Yr Archwilydd Cyffredinol (2018) ‘Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru’, ar gael yn:
http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Fiscal%20devolution%20in%20Wales-cym.pdf

Prifysgol Bangor (2017) ‘Craffu a sicrwydd annibynnol ynghylch rhagolygon trethi datganoledig Cymru’, Adroddiad Terfynol Hydref 2017, ar gael yn:
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/prifysgol-bangor-2018_0.pdf

Prifysgol Bangor (2018) ‘Craffu a sicrwydd annibynnol ynghylch rhagolygon trethi datganoledig Cymru’, Diweddariad Hydref 2018 o’r Adroddiad Terfynol, ar gael yn:
https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/bangor-report-2018.pdf

https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-terfynol-rhagfyr-2018.pdf

Sefydliad Bevan (2016) ‘Tax for Good: new taxes for a better Wales’, ar gael yn:
https://www.bevanfoundation.org/publications/tax-good-new-taxes-better-wales/

Bryan Cave Leighton Paisner (2018) ‘Are you ready for Welsh Land Transaction Tax?’, Transitional provisions passed and guidance released, ar gael yn: www.blplaw.com/expert-legal-insights/articles/are-you-ready-for-welsh-land-transaction-tax-transitional-provisions-passed-and-guidance-released

Drysdale, D. (2017) ‘Welsh land tax raises border issues’, Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yn yr Alban, ar gael yn: www.icas.com/technical-resources/welsh-land-tax-raises-border-issues

Ffederasiwn y Busnesau Bach (2018) Taxing Times routes to reform for small businesses as taxpayers, ar gael yn:
https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb-tax-report---taxing-times-final.pdf?sfvrsn=0

Gayer C a Mourre G (2012) ‘Property taxation and enhanced tax administration in challenging times’, Papurau Economaidd Economi Ewrop Papurau 463, Hydref 2012

Comisiwn Holtham (2010) ‘Fairness and accountability: a new funding settlement for Wales’, ar gael yn: www.gov.wales/docs/icffw/report/100705fundingsettlementfullen.pdf,

Crynodeb yn https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/crynodeb-or-adroddiad.pdf

Hugh James (2017) ‘What you need to know about the new Land Transaction Tax’, ar gael yn www.hughjames.com/news/comment/2017/06/new-land-transaction-tax/#.XDTHdorgrcs

Melding D. (2013) ‘The Reformed Union: The UK as a Federation’, Y Sefydliad Materion Cymreig, ar gael yn: www.iwa.wales/click/wp-content/uploads/ReformedUnion.pdf

Mirrlees J., Besley, T., Blundell R., Bond S., Chote R., Gammie M., Johnson P., Myles G. a Poterba J.M. (2011). ‘Tax by design’, Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019) 'Administration of Welsh Income Tax 2017-18', ar gael yn: https://www.nao.org.uk/report/administration-of-welsh-income-tax-2017-18/

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2008) 'Study into the role of tax intermediaries', ar gael yn: http://www.oecd.org/tax/administration/39882938.pdf

Phillips D. (2016) 'Tax devolution and Wales' Cyflwyniad paratoi a roddwyd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cymru, ar gael yn: www.ifs.org.uk/uploads/Presentations/Wales - Finance Committee.pdf

Powell K. (2018) 'Guest comment: a new property tax in Wales', ar gael yn: www.beta.gov.wales/guest-comment-new-property-tax-wales

Rowley T (2001) 'The Welsh Border', Archaeology, History and Landscape, Tempus

Fforwm Polisi Trethi'r Alban (2018) 'Devolving Taxes across the UK: Learning from the Scottish experience ICAS', ar gael yn: https://www.tax.org.uk/sites/default/files/Final%20-%20STPF%20Paper%20-%20October%202018.pdf

Comisiwn Silk (2012) 'Grymuso a chyfrifoldeb: pwerau ariannol i gryfhau Cymru', ar gael yn: www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310592/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf

Torrance, D. (2018) 'A process not an event devolution in Wales 1998-2018', Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Llywodraeth Cymru (2015) 'Crynodeb o ymatebion Y Dreth Trafodiadau Tir', ar gael yn: https://gov.wales/docs/caecd/publications/161014-ltt-responses-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2015) 'Ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Dreth Trafodiadau Tir', ar gael yn:  www.beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/150915-ltt-index-en.pdf

Llywodraeth Cymru (2018) 'Treth Incwm', ar gael yn: www.gov.wales/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/income-tax/?lang=en

https://beta.llyw.cymru/cyfraddau-treth-incwm-yng-nghymru?_ga=2.34744610.2081101645.1552495757-1480372418.1543254702

ACC, 'Amdanom ni', ar gael yn: www.beta.gov.wales/welsh-revenue-authority/about-us

https://beta.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru/amdanom-ni?_ga=2.34744610.2081101645.1552495757-1480372418.1543254702

ACC 'Siarter', ar gael yn: www.beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/wra-our-charter.pdf

ACC 'Cynllun Corfforaethol', ar gael yn: www.beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-04/180430-wra-corporate-plan-a.pdf

https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/180430-acc-cynllun-corfforaethol-a.pdf

ACC 'Ystadegau cofrestru'r Dreth Trafodiadau Tir', ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/ystadegau-cofrestru-ar-gyfer-y-dreth-trafodiadau-tir?_ga=2.262255055.2115496325.1552581638-1318688909.1546599840

ACC 'Rhestr gweithredwyr safleoedd tirlenwi Awdurdod Cyllid Cymru', ar gael yn: www.beta.gov.uk/wales/welsh-revenue-authority-list-landfill-site-operators

https://beta.llyw.cymru/rhestr-o-weithredwyr-safleoedd-tirlenwi-awdurdod-cyllid-cymru?_ga=2.42733478.2081101645.1552495757-1480372418.1543254702

Cyflwyniad Dyfed Alsop i Fforwm Treth ACC , 8 Tachwedd 2018

ACC '6 mis o godi refeniw i Gymru' gan Dyfed Alsop, ar gael yn: www.beta.gov.wales/6-months-raising-revenue-wales

# ATODIADAU

- **Atodiad 1: Cyfraddau a bandiau'r TTT**
- **Atodiad 2: Cyfraddau a bandiau Treth Incwm a'r refeniw a ragwelir o'r trethi datganoledig**
- **Atodiad 3: Rhagolygon refeniw o'r trethi datganoledig**

# Atodiad 1: Cyfraddau a bandiau'r TTT

Treth ar drafodiadau mewn perthynas â thir ac adeiladau preswyl a masnachol yw'r TTT (gan gynnwys pryniannau masnachol a phrydlesau masnachol) lle caffaelir buddiant trethadwy. Mae cyfraddau a throthwyon gwahanol yn gymwys i'r pedwar segment gwahanol; prif gyfraddau preswyl, eiddo preswyl ychwanegol, prif gyfraddau dibreswyl a rhenti prydles dibreswyl. Mae yna rai gwahaniaethau eraill, er enghraifft gyda phrydlesau dibreswyl, ond mae'r rhain yn ymwneud â lleiafrif bach iawn o drafodiadau.

O'r 4 segment, TTT o drafodiadau ar y prif gyfraddau preswyl sy'n codi'r refeniw mwyaf (Prifysgol Bangor, 2018), a phennir cyfraddau'r TTT a TDDS y DU isod er mwyn dangos y prif wahaniaethau rhwng y ddwy system.

**Tabl 1[1] yr Atodiad: Cyfraddau a bandiau'r TTT ar gyfer trafodiadau preswyl**

| PRIS PRYNU/PREMIWM PRYDLESU NEU WERTH TROSGLWYDDO | CYFRADD Y TTT | CYFRADD EIDDO YCHWANEGOL |
|---|---|---|
| Hyd at £180,000 | Zero | 3.0% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 3.5% | 6.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 5.0% | 8.0% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% | 10.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10.0% | 13.0% |
| Dros £1,500,000 | 12.0% | 15.0% |

**Tabl 2 yr Atodiad: Cyfraddau a bandiau Treth Dir Treth Stamp y DU ar gyfer trafodiadau preswyl**

| PRIS PRYNU/PREMIWM PRYDLESU NEU WERTH TROSGLWYDDO | CYFRADD Y TTT | CYFRADD EIDDO YCHWANEGOL |
|---|---|---|
| Hyd at £125,000 | Zero | 3.0% |
| Dros £125,000 i £250,000 | 2.0% | 5.0% |
| Dros £250,000 i £925,000 | 5.0% | 8.0% |
| Dros £925,000 i £1,500,000 | 10.0% | 13.0% |
| Dros £1,500,000 | 12.0% | 15.0% |

1 Daw'r tablau yn yr atodiadau o Adroddiad Craffu a sicrwydd annibynnol ar y rhagolygon trethi datganoledig i Gymru (Prifysgol Bangor, 2018).

**Tabl 3 yr Atodiad: Cyfraddau a bandiau Treth Dir Treth Stamp y DU ar gyfer trafodiadau preswyl - Cyfraddau gostyngedig i brynwyr tro cyntaf yn Lloegr**

| PRIS PRYNU/PREMIWM PRYDLESU NEU WERTH TROSGLWYDDO | TDDS |
|---|---|
| Hyd at £300,000 | Sero |
| Dros £300,000 – £500,000 | 5.0% |
| Dros £500,000 | Mae'r cyfraddau safonol yn gymwys i'r pris cyfan |

**Nid oes rhyddhad prynwr tro cyntaf ar gael os yw'r eiddo yng Nghymru**

# Atodiad 2: Cyfraddau a bandiau Treth Incwm a'r refeniw a ragwelir o'r trethi datganoledig

O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd Llywodraeth y DU yn torri 10c oddi ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) y mae trethdalwyr yng Nghymru'n eu talu. Wedyn bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar y tair cyfradd yng Nghymru, a gaiff eu hychwanegu at gyfraddau gostyngedig y DU. Caiff cyfradd gyffredinol y dreth incwm a delir gan drethdalwyr yng Nghymru ei phennu gan gyfuniad o'r cyfraddau gostyngedig yn y DU plws cyfraddau newydd Cymru. Er enghraifft, os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu mai 10c fydd pob un o gyfraddau Cymru, bydd hynny'n golygu bod cyfraddau cyffredinol y dreth incwm a delir gan drethdalwyr yng Nghymru'n parhau i fod yr un fath â'r rhai y mae trethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn eu talu.

Ym mis Ionawr 2019, cadarnhaodd y Cynulliad Cenedlaethol y byddai cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu gosod fel bod trethdalwyr Cymru yn 2019/20 yn parhau i dalu'r un gyfradd â threthdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nodir cyfraddau treth incwm Cymru isod yn Nhabl 4.

**Tabl 4 yr Atodiad: Cyfraddau treth incwm, 2019/20**

| CYFRADDAU TRETH | Y DU | CYMRU | CYFANSWM | CYMRU / CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 10% | 10% | 20% | 0.50 |
| Uwch | 30% | 10% | 40% | 0.25 |
| Ychwanegol | 35% | 10% | 45% | 0.22 |

# Atodiad 3: rhagolygon refeniw o'r trethi datganoledig

Mae rhagolygon Llywodraeth Cymru o ran y refeniw y disgwylir ei godi trwy'r trethi datganoledig fel a ganlyn:

**Tabl 5 yr Atodiad: Rhagolygon Llywodraeth Cymru o ran refeniw trethi ar gyfer 2017/19 i 2022/23 (£ miliwn)**

| CYFNOD | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 44 | 40 | 36 | 34 | 32 |
| Treth Trafodiadau Tir | 240 | 258 | 269 | 287 | 309 |
| Cyfraddau Trethi Incwm Cymru | - | 2,099 | 2,164 | 2,237 | 2,320 |
| **Cyfanswm** | **284** | **2,397** | **2,469** | **2,558** | **2,661** |

FSB Wales
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP
T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales